**EITEM 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 03 Tachwedd 2014 |
| **TEITL** | Balansau Ysgolion |
| **PWRPAS** | Balansau ysgolion Gwynedd yng nghyd-destun Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Codi ymwybyddiaeth |
| **AWDUR** | Owen Owens, Pennaeth Addysg Dros Dro |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

# Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru (SDR 173/2014)

**Sylwadau**

1. Rwyf eisoes wedi adrodd i gyfarfod diwethaf y Fforwm Cyllid Ysgolion (18/6/14) am gynnydd bychan iawn ym malansau ysgolion Gwynedd o £3.753m ar 31 Mawrth 2013 i £3.777m ar 31 Mawrth 2014.
2. Yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar falansau ysgolion 31 Mawrth 2014 (Atodiad 1) mae cyfle i gymharu balansau ysgolion Gwynedd gyda gweddill Awdurdodau Lleol Cymru.
3. Gwelir yn Atodiad 1 - Tabl 2 bod canran balansau ysgolion Gwynedd yn erbyn y gyllideb ddatganoledig yn 4.4% o'i chymharu gyda chyfartaledd Cymru o 2.8%, gyda chanran Gwynedd yn parhau ymysg yr uchaf yng Nghymru.
4. Atodiad 1 - Tabl 6 yn nodi mai 6% o ysgolion Gwynedd sydd gyda balansau negyddol, mewn cymhariaeth gyda 13% cenedlaethol. Dylid nodi wrth gwrs mai'r nôd yw na ddylsai balansau negyddol fod yn yr un o'n hysgolion.

**Casgliad**

1. Mae lefel cymharol uchel balansau ysgolion Gwynedd yn parhau i achosi pryder gan nad yw **rhai ysgolion**, fe ymddengys felly, yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer disgyblion sydd oddi fewn i'r gyfundrefn addysg ar hyn o bryd. Mae hwn yn fater sydd eisoes wedi'i amlygu ar sawl achlysur gan yr Aelod Cabinet dros Addysg.